

Cynllun Strategol 2020–2025



Mae'n bleser gennyf rannu ein cynllun strategol ar gyfer y cyfnod rhwng 2020 a 2025 â chi.

Yn wreiddiol, y bwriad oedd ei gyhoeddi yn gynharach eleni, ond yn anffodus cyrhaeddodd COVID-19 gan effeithio ar ein bywydau mewn ffyrdd na ellid bod wedi'u dychmygu. Gwn ei bod wedi bod yn adeg heriol ac anodd i bob un ohonom a hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i bawb sy'n gweithio yn y sector gofal cymdeithasol a gofal plant a chwarae, gan gynnwys y staff yma yn Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), am eich ymrwymiad a'ch ymroddiad anhygoel. Hoffwn hefyd gydymdeimlo â'r rheini sydd wedi colli anwyliaid yn ystod y cyfnod hynod anodd hwn.

Mewn ymateb i'r feirws, rydym wedi addasu ein ffordd o weithio er mwyn i ni allu parhau i roi sicrwydd ynghylch ansawdd a diogelwch y gwasanaethau rydym yn eu rheoleiddio ac yn eu harolygu. Pobl sydd wrth wraidd popeth a wnawn ac mae'n bwysig i mi ein bod yn dysgu gwersi'n gyflym o'n profiadau, gan fyfyrwio ar yr hyn sydd wedi gweithio'n dda a rhoi'r gwersi a ddysgwyd ar waith i'n helpu i wella'n barhaus. Rydym wedi adolygu'r cynllun hwn er mwyn sicrhau y bydd ein gweithredoedd yn ein galluogi i roi'r gwersi a ddysgwyd o'r pandemig ar waith ac i ddefnyddio ein hadnoddau yn y ffordd fwyaf effeithiol bosibl.

Ein blaenoriaethau allweddol ar gyfer y tair blynedd nesaf yw helpu i ddylanwadu ar welliannau a'u llywio ym mhob rhan o'r sector gofal cymdeithasol a'r sector gofal plant a sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar bobl a chanlyniadau. I gyflawni hyn, byddwn yn gwrandao ar yr hyn rydych chi'n ei ddweud wrthym ac yn dysgu ohono.

Byddwn yn manteisio ar sgiliau a thalentau ein staff. Byddwn yn sefydliad cynhwysol sy'n croesawu ac yn parchu amrywiaeth, a byddwn yn hyrwyddo ein gwaith drwy ddathlu a hyrwyddo ein cyflawniadau yn well.

Mae gwasanaethau gofal yn bwysig i bawb a byddwn yn gweithio mewn ffordd gydgyhyrchiol er mwyn helpu i sicrhau gwelliannau i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau hanfodol hyn. Wrth ddatblygu ein cynllun, rydym wedi ymgynghori â rhanddeiliaid ac wedi ystyried yr hyn rydym wedi'i ddysgu o'n harolygiadau. Rydym am gyflawni gwelliannau sy'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i bobl ac rwy'n hyderus y bydd y cynllun hwn yn ein helpu i wneud hyn. Bydd yn ddogfen fyw a byddwn yn ei hadolygu ac yn ei monitro'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod ein blaenoriaethau yn arhau'n berthnasol ac yn canolbwyntio ar bobl. Bydd hyn yn arbennig o bwysig yn ystod y misoedd nesaf wrth i ni barhau i addasu'r hyn a wnawn i helpu i amddiffyn a diogelu'r unigolion mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas.



Gillian Baranski
Prif Arolygydd, AGC

Pwy ydym ni

Ni yw Arolygiaeth Gofal Cymru, sef rheoleiddiwr annibynnol gofal cymdeithasol a gofal plant. Rydym yn cofrestru, yn arolygu ac yn gweithredu i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau er llesiant pobl Cymru.

- **Ein staff:**
283 o staff ledled Cymru
- **Ein swyddfeydd:**
Caerfyrddin; Cyffordd Llandudno a Merthyr Tudful
- **Ein tîm uwch-reolwyr:**
 - Y Prif Arolygydd
 - Dau ddirprwy Brif Arolygydd
 - Pennaeth Arolygu Gwasanaethau Oedolion a Phlant
 - Pennaeth Arolygu Gofal Plant a Chwarae
 - Pennaeth Arolygu Awdurdodau Lleol
 - Pennaeth Cofrestru a Gorfodi
 - Pennaeth Gwasanaethau Cymorth

Yr hyn rydym yn ei wneud

- Rydym yn cyflawni swyddogaethau ar ran Gweinidogion Cymru er mwyn darparu sicrwydd ynghylch ansawdd a diogelwch gwasanaethau.
- Rydym yn penderfynu pwy sy'n gallu darparu gwasanaethau.
- Rydym yn arolygu gwasanaethau rheoleiddiedig a gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol, gan lywio gwelliannau iddynt.
- Rydym yn cynnal adolygiadau cenedlaethol o wasanaethau gofal cymdeithasol.
- Rydym yn cymryd camau i sicrhau bod gwasanaethau'n bodloni gofynion deddfwriaethol a rheoliadol.
- Rydym yn ymateb i bryderon a leisiwyd am wasanaethau gofal cymdeithasol a gofal plant.




Y gwasanaethau rydym yn eu rheoleiddio

Rydym yn rheoleiddio'r gwasanaethau canlynol:

- **Gwasanaethau oedolion:** cartrefi gofal i oedolion, gwasanaethau cymorth cartref, cynlluniau lleoli oedolion a gwasanaethau canolfan breswyl i deuluoedd
- **Gwasanaethau plant:** cartrefi gofal i blant, gwasanaethau maethu, gwasanaethau mabwysiadu, gwasanaethau eirioli a gwasanaethau llety diogel
- **Gwasanaethau gofal plant a chwarae:** gwarchodwyr plant, crèches, gofal dydd llawn, gofal dydd sesiynol, gofal y tu allan i'r ysgol a darpariaeth chwarae mynediad agored

Rydym hefyd yn adolygu perfformiad awdurdodau lleol wrth iddynt gyflawni eu swyddogaethau ym maes gwasanaethau cymdeithasol. Gwnawn hyn drwy gyfuniad o weithgarwch arolygu a gwerthuso perfformiad. Rydym hefyd yn arolygu'r canlynol:

- Gwasanaethau maethu a mabwysiadu awdurdodau lleol
- Ysgolion preswyl
- Ysgolion arbennig preswyl (trefniadau llety am lai na 295 diwrnod)
- Colegau addysg bellach sy'n llety a myfyrwyr dan 18 oed



Ein gwerthoedd craidd

Mae ein gwerthoedd craidd yn sicrhau bod pobl wrth wraidd popeth rydym yn ei wneud ac yn dyheu am fod.

- **Gofalgar:** rydym yn drugarog ac mae'n hawdd siarad â ni
- **Teg:** rydym yn gyson, yn ddiuedd ac yn gynhwysol
- **Uniondeb:** rydym yn onest a dibynadwy
- **Proffesiynol:** rydym yn fedrus, yn wybodus ac yn arloesol
- **Parch:** rydym yn gwrandao ar bobl, yn ymgysylltu â nhw ac yn eu gwerthfawrogi

Ein blaenoriaethau strategol

Mae gennym dair blaenoriaeth strategol i ddarparu ein cyfeiriad a ffocws sefydliadol dros y pum blynedd nesaf.

- 1. Bod yn llais dibynadwy i ddylanwadu ar welliannau a'u llywio**
- 2. Darparu gwasanaeth o ansawdd uchel yn gyson**
- 3. Bod yn fedrus ac yn ymatebol**

Byddwn yn adolygu'r blaenoriaethau hyn bob blwyddyn er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn berthnasol ac yn adlewyrchu'r amgylchedd rydym yn gweithredu ynddo.

Ein camau gweithredu

Bydd y broses o roi'r camau a amlinellir yn ein cynllun strategol ar waith yn cael ei hategu gan raglenni gwaith manwl. Byddwn yn cydweithio â'n cydweithwyr a'n partneriaid i gyflawni'r camau hyn yn llwyddiannus a sicrhau buddiannau gwirioneddol i bobl Cymru.

Blaenoriaeth Strategol 1

Bod yn llais dibynadwy i ddylanwadu ar welliannau a'u llywio

- Rydym yn gwerthfawrogi ac yn parchu llais pawb wrth lywio a llunio ein gwaith
- Rydym yn defnyddio canfyddiadau ein harolygiadau a'n hadolygiadau er mwyn gwella gwasanaethau yn lleol ac yn genedlaethol
- Rydym yn cefnogi gwelliannau ym maes gofal cymdeithasol, gofal plant a chwarae drwy gydweithio i ddylanwadu ar newidiadau

Byddwn yn gwneud y canlynol:

- Egluro ein rôl o ran cefnogi gwelliannau ac arloesi gyda Gofal Cymdeithasol Cymru, Gwelliant Cymru a phartneriaid eraill
- Parhau â'n rhaglen o adolygiadau cenedlaethol a hyrwyddo'r canfyddiadau
- Parhau i ddatblygu ein dull o sicrhau gwelliant a gorfodi er mwyn sicrhau bod pobl yn ddiogel ac yn cael gwasanaethau o ansawdd uchel
- Cyhoeddi graddau ar gyfer cartrefi gofal a gwasanaethau cymorth cartref
- Datblygu ein dull o gydweithio a chynnal arolygiadau ymhellach er mwyn cefnogi gwelliannau
- Cyfrannu at y gwaith o werthuso effaith Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 wrth sicrhau gwelliant a darparu canlyniadau gwell i bobl
- Gweithredu ein fframwaith sicrhau ansawdd i sicrhau cysondeb a gwelliant parhaus yn ein holl waith



Blaenoriaeth Strategol 2

Darparu gwasanaeth o ansawdd uchel yn gyson

- Rydym yn helpu pobl i wneud penderfyniadau gwybodus drwy ddarparu gwybodaeth o ansawdd uchel
- Rydym yn defnyddio ein fframweithiau llywodraethu a sicrhau ansawdd i ddarparu gwaith cyson o ansawdd uchel
- Rydym yn gwella ein perfformiad yn barhaus drwy wrando ar adborth a gweithredu arno

Byddwn yn gwneud y canlynol:

- Sicrhau bod ein hadroddiadau'n glir ac yn hawdd eu deall drwy ddefnyddio ein dull newydd o ysgrifennu adroddiadau
- Hyrwyddo'r defnydd o'n gwasanaethau ar-lein (AGC Ar-lein) er mwyn ei gwneud yn haws i ddarparwyr weithio gyda ni
- Adolygu ein gwefan i ddarparu gwybodaeth hygyrch
- Gwerthuso ein dull gweithredu o ymdrin â'r pryderon y mae pobl yn eu rhannu â ni er mwyn sicrhau ein bod yn ymatebol ac yn cymryd y camau gweithredu priodol
- Datblygu ein pwynt cyswllt cyntaf er mwyn gwella effeithiolrwydd ein gwasanaethau i gwsmeriaid
- Adolygu ein prosesau a'n cynllun digidol er mwyn darparu gwasanaethau prydlon ac effeithiol
- Cyhoeddi gwybodaeth am ein perfformiad i roi sicrwydd ynghylch effaith ein gwaith
- Gweithredu ein fframwaith sicrhau ansawdd i sicrhau cysondeb a gwelliant parhaus yn ein holl waith



Blaenoriaeth Strategol 3

Bod yn fedrus ac yn ymatebol

- Rydym yn datblygu ein sgiliau a'n gwybodaeth er mwyn cyflawni ein rolau'n effeithiol
- Rydym yn myfyrio, yn gwrandao ac yn dysgu gyda'n gilydd i wella'n barhaus
- Rydym yn hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant gan helpu'r staff i gyrraedd eu potensial

Byddwn yn gwneud y canlynol:

- Rhoi'r fframwaith ar gyfer ymgysylltu â staff ar waith, gan alluogi'r holl staff i gyfrannu at lwyddiant AGC
- Sicrhau bod pob aelod o staff yn hyderus ac yn gymwys o ran ein dull o gymwhyso gweithdrefnau diogelu newydd Cymru
- Cefnogi llesiant staff mewn partneriaeth ag undebau llafur
- Sicrhau bod ein timau'n cydweithio'n well gan rannu gwybodaeth ac arbenigedd
- Sicrhau bod rolau a chyfrifoldebau'r staff cymorth busnes yn eglur
- Adolygu'r agwedd at ein gwaith a sicrhau bod gan ein staff lwythi gwaith teg
- Datblygu ein dull gweithredu mewn perthynas â dysgu a datblygu proffesiynol gan nodi cyflawniadau ac annog diwylliant o ymarfer myfyriol
- Datblygu a grymuso ein staff drwy ddarparu dull arweinyddiaeth gyson
- Datblygu strategaeth recriwtio a'r gweithlu a'i rhoi ar waith er mwyn creu gweithlu amrywiol a gwydn
- Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ym mhopeth a wnawn
- Hyrwyddo dulliau gweithredu cadarnhaol mewn perthynas â chydaddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant er mwyn sicrhau bod AGC yn lle gwych i weithio ynddo

Cyswllt

📍 arolygiaethgofal.cymru

☎ Ffoniwch ni: 0300 7900 126

@ E-bostiwch ni: AGC@llyw.cymru

✍ Ysgrifennu aton ni:
Arolygiaeth Gofal Cymru
Swyddfa Llywodraeth Cymru
Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
LL31 9RZ

🐦 @arolygu_gofal

📘 facebook.com/arolygugofal



Cyswllt AGC

Cyswllt AGC yw ein tîm cyswllt cyntaf. Rydym yn darparu gwasanaeth dwyieithog ar gyfer galwadau ffôn i AGC a byddwn yn gwneud ein gorau i roi'r wybodaeth, y cyngor neu'r cymorth sydd eu hangen, lle bo hynny'n bosibl.

Mae gennym un rhif ffôn – 0300 7900 126 – ac un cyfeiriad e-bost AGC@llyw.cymru ar gyfer pob ymholiad.

Mae fformatau eraill, fersiwn hawdd ei deall, fersiwn Braille a fersiwn sain ar gael ar gais hefyd.